
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

# Mynychu llysoedd neu dribiwnlysoedd- canllaw i aelodau o'r cyhoedd

Rhagfyr 2023



# Mynychu llysoedd neu dribiwnlysoedd



Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall eich hawliau pan fyddwch yn mynychu gwrandawiadau llys neu dribiwnlys fel aelod o'r cyhoedd. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar sut y gallwch gael gafael ar wybodaeth am achos llys neu dribiwnlys.

Mae canllawiau penodol os ydych chi'n mynychu llys neu dribiwnlys i gymryd rhan mewn gwrandawiad, mynychu fel dioddefwr neu dyst, neu'n mynychu treial fel aelod rheithgor. Rydym hefyd yn cynnig cymorth i bobl anabl i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'n llysoedd a'n tribiwnlysoedd i leihau a goresgyn unrhyw rwystrau.

Mae ein system gyfiawnder yn cael ei chydnabod yn eang fel system deg, annibynnol a thryloyw. Mae ganddi rai prosesau cymhleth, ac mae'n bosibl y byddai'r rhain yn ei gwneud hi'n anodd i chi ddeall beth sy'n digwydd a pham.

## Mathau o lysoedd a thribiwnlysoedd

Yn fras mae pedwar math o wrandawiad yn y system gyfreithiol, sef awdurdodaethau:

- Troseddol: Achosion lle honnir bod unigolyn wedi cyflawni trosedd. Mae pob achos yn dechrau mewn llys ynadon, gydag achosion mwy difrifol yn mynd ymlaen i Lys y Goron. Mae llysoedd ynadon arbenigol, sef llysoedd ieuenctid yn delio ag achosion troseddol sy'n ymwneud â phlant rhwng 10 a 17 oed.
- Sifil: Fel arfer anghydfodau rhwng pobl neu sefydliadau, yn cynnwys pethau fel anghydfodau rhwng landlord a thenant, adennill dyledion, hawliadau rhwng cwmnïau. Mae'r achosion hyn yn cael eu gwrando yn bennaf yn y Llys Sirol. Mae gan lysoedd ynadon awdurdodaeth sifil hefyd sy'n cwmpasu gorfodi (e.e. treth y cyngor a chynhaliaeth plant), ceisiadau gan gyrff cyhoeddus am orchmynion megis gorchmynion atal niwed rhywiol neu orchmynion atal stelcio ac apeliadau yn erbyn rhai penderfyniadau awdurdodau lleol.
- Teulu: Fel arfer anghydfodau rhwng aelodau'r teulu, er enghraifft ynghylch trefniadau ar gyfer plant a materion eraill megis cyfrifoldeb rhiant ac ysgariad. Hefyd ceisiadau gan awdurdodau lleol am orchmynion i amddiffyn plant rhag niwed.
- Tribiwnlysoedd: Mae'r rhain yn baneli arbenigol sy'n delio ag ystod o anghydfodau o ddydd i ddydd fel hawliadau am loches a mewnfudo, diswyddo annheg, apeliadau nawdd cymdeithasol, a threth. Maen nhw'n derbyn tystiolaeth gan bartïon a chan arbenigwyr eraill.

Mae gan wefan y Swyddfa Farnwrol lawer o wybodaeth ddefnyddiol am hanes y system gyfiawnder a strwythur y llysoedd a thribiwnlysoedd.

## Cyn gwrandawiad

Mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau llysoedd a thribiwnlysoedd fel arfer yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Mae achosion yn y Llys Teulu a'r llys ieuenctid yn breifat felly nid yw'r rhan nesaf yn berthnasol iddyn nhw.

Mae'r barnwr neu'r ynad ym mhob achos yn penderfynu sut y bydd gwrandawiad yn cael ei gynnal, gan gynnwys a all pobl ei wylio a sut y gall pobl ei wylio. Ar achlysuron prin, os ydyn nhw'n credu ei bod yn angenrheidiol ar gyfer gweinyddu cyfiawnder yn briodol, gallan nhw benderfynu cynnal gwrandawiad yn breifat, heb ganiatâd i unrhyw un ei wylio. Yn dibynnu ar y penderfyniad, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu gwylio gwrandawiad:

- yn bersonol, mewn seddi cyhoeddus penodol (e.e. mewn oriel gyhoeddus neu ran benodol o ystafell y llys)
- o bell, gan ddefnyddio dolen fideo neu sain

Gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth Dod o hyd i Lys neu Dribiwnlys i weld:

- Cyfeiriad a manylion cyswllt
- amseroedd agor
- pa faes/meysydd cyfreithiol y mae'n delio â nhw
- hygyrchedd adeiladau

Gallwch ofyn i gael gwylio gwrandawiad yn y llys neu dribiwnlys o bell. I wirio a yw hynny'n opsiwn ar gyfer gwrandawiad penodol, bydd angen i chi gysylltu â'r llys neu'r tribiwnlys ymlaen llaw gyda'ch enw llawn, cyfeiriad e-bost ac unrhyw wybodaeth arall amdanoch chi'ch hun y mae'r barnwr yn gofyn amdani.

Os nad oes gan lys neu dribiwnlys y dechnoleg neu'r adnoddau priodol, neu os yw barnwr wedi gwneud penderfyniad i beidio â chynnal y gwrandawiad o bell, mae'n bosibl y byddan nhw'n awgrymu gwylio'r gwrandawiad yn bersonol yn lle hynny.

- Mae rhai awdurdodaethau llys yn ffrydio rhai o'u gwrandawiadau neu bob un ohonyn nhw ar-lein fel:
- Ffrydio byw y Goruchaf Lys
- Ffrydio byw y Llys Apêl (Is-adran Sifil)
- Ffrydio byw y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth

Rhestrau llysoedd: Llysoedd sy'n gyfrifol am gyhoeddi rhestrau o wrandawiadau sydd ar ddigwydd. Mae'r rhestrau hyn ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim, a dylen nhw fod ar gael fel arfer — ar-lein neu mewn copi caled mewn adeiladau'r llys a'r tribiwnlys — erbyn y bore y bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal arno. Gall rhestrau llysoedd newid weithiau, os nad ydych chi'n sicr neu os oes gennych unrhyw gwestiynau gofynnwch i aelod o staff y llys.

Gallwch weld ein rhestrau llysoedd cyhoeddus ar wefan GOV.UK neu drwy ein Gwasanaeth Gwrandawiadau Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Prosesau diogelwch: Er mwyn helpu i gadw ein hadeiladau yn ddiogel mae'n rhaid i chi fynd drwy broses ddiogelwch bob tro y byddwch yn mynd i mewn. Darllenwch ein canllaw prosesau diogelwch mewn adeilad llys neu dribiwnlys wrth i chi gynllunio'ch ymweliad.

Pan fyddwch y tu mewn i adeilad llys, gall staff yn y dderbynfa ddweud wrthych ble mae'r ystafell berthnasol a'r man eistedd cyhoeddus. Os ydych yn barti neu'n dyst mewn gwrandawiad, rhowch wybod i aelod o staff y llys pan fyddwch yn cyrraedd.

## Gwylio gwrandawiad

Ardal eistedd/oriel gyhoeddus: Lle bynnag y bo'n bosibl bydd seddi mewn 'oriel gyhoeddus' benodol neu ardal eistedd benodol arall. Dyma adran o seddi sy'n cael eu cadw ar gyfer y cyhoedd i ffwrdd oddi wrth y partïon sy'n gysylltiedig â'r achos. Gall aelod o staff ddweud wrthoch sut i fynd i'r ardal hon. Oni bai bod y barnwr wedi cyfyngu'n benodol ar fynediad cyhoeddus am reswm da, gallwch fynd i mewn a gadael ystafell y llys, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny heb amharu ar yr achos.
Gwrandawiadau o bell: Bydd y barnwr sy'n gwrando ar yr achos yn penderfynu a allwch wylio'r gwrandawiad o bell. Dyma rai o'r ffactorau y bydd y barnwr yn eu hystyried wrth wneud y penderfyniad:

- buddiannau cyfiawnder
- gallu technegol y llys i ddarparu dull gwylio o bell
- yr hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau gweinyddu cyfiawnder yn briodol.

Ar ddiwrnod y gwrandawiad, bydd angen i chi ddilyn y cyfarwyddiadau a anfonwyd gan y llys neu'r tribiwnlys. Mae hyn fel arfer yn golygu bod y llys neu'r tribiwnlys yn rhannu dolen gyda chi drwy e-bost sy'n eich galluogi i wylio'r gwrandawiad ar-lein.

Cyfyngiadau ar fynediad: Mae gan bob llys neu dribiwnlys y pŵer i gyfyngu ar fynediad y cyhoedd i ystafell y llys lle mae angen gwneud hynny er budd cyfiawnder, er enghraifft i atal anhrefn neu i helpu tyst bregus i roi ei dystiolaeth orau.

Mae'n bosibl cyfyngu ar fynediad hefyd er mwyn atal aelodau'r cyhoedd, yn ogystal â chyfranogwyr yn yr achos, rhag mynd i mewn a gadael ystafell y llys pan fydd y pethau canlynol yn digwydd:

- mae'r cyhuddiadau yn cael eu darllen ar goedd
- mae'r rheithgor yn cael ei chofrestru ac yn tyngu'r llw
- mae pobl fel y rheithgor neu'r tystion yn tyngu llw neu gadarnhad
- mae'r rheithgor yn rhoi ei reithfarn
- mae'r barnwr yn pasio dedfryd

Mae'n anghyfreithlon cyhoeddi polisi cyffredinol i lys neu dribiwnlys gyfyngu ar fynediad yn ystod rhannau eraill o'r achos.



Prosesau'r llys a'r tribiwnlys: Pan fydd aelod o staff yn dweud "Sefwch yn y Llys" mae'n rhaid i chi sefyll. Mae hyn yn golygu bod y barnwr neu'r ynad ar fin dod i mewn i'r ystafell. Bydd y barnwr yn dweud wrthych pryd i eistedd i lawr eto. Mae'n rhaid i chi aros yn dawel wrth wylio gwrandawiad. Os na allwch sefyll oherwydd anabledd neu gyflwr rhowch wybod i un o'n gweithwyr cyn i'r gwrandawiad ddechrau.

Tynnu lluniau, ffilmio a recordio sain: Mae'n anghyfreithlon, a gall hefyd fod yn ddirmyg llys, i rywun sy'n gwylio dynnu ffotograffau, ffilmio, neu wneud recordiadau sain yn ystafell y llys, ystafell wrandawiadau, adeilad y llys neu mewn unrhyw ran o adeilad y llys. Mae hyn hefyd yn berthnasol wrth ddod i wrandawiadau o bell. Mae hefyd yn anghyfreithlon, a gall fod yn ddirmyg i'r llys, gyhoeddi neu ddarlledu delweddau neu recordiadau a gafodd eu gwneud yn groes i'r gwaharddiad hwn. Mewn rhai achosion gall y llys garcharu person sy'n gwneud unrhyw un o'r pethau hyn

Defnyddio ffonau a gliniaduron: Gallwch fynd â ffonau symudol a dyfeisiau eraill sy'n seiliedig ar destun fel gliniaduron i mewn i'r llys neu ystafell y tribiwnlys ond ni chewch eu defnyddio. Dylech ofyn i aelod o staff bob tro gan ei fod yn bosibl y bydd rhai cyfyngiadau lleol ar waith. Os ydych chi'n mynd â dyfais symudol i mewn gyda chi, diffoddwch hi neu trowch y sain i ffwrdd er mwyn osgoi tarfu ar y trafodion

Cymryd nodiadau: Nid oes angen caniatâd arnoch i gymryd nodiadau. Pan fo seiliau rhesymol i amau y gallai gwneud nodiadau fod at ddiben anghyfreithlon, neu y gallai amharu ar achos, mae'n bosibl y gofynnir i chi ymatal rhag eu gwneud. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i aelod o staff y llys. Mae enghreifftiau yn cynnwys lle mae rheswm dros gredu bod nodiadau yn cael eu defnyddio i:

- drosglwyddo cyfathrebiadau byw sy'n seiliedig ar destun heb y caniatâd gofynnol
- hwyluso torri cyfyngiad ar adrodd

Cyfathrebu byw yn seiliedig ar destun (e.e. 'X' sef Twitter gynt): Oni bai eich bod yn newyddiadurwr achredig, neu mewn rhai achosion yn flogiwr cyfreithiol, ni allwch bostio ar gyfryngau cymdeithasol heb ganiatâd nes bod y gwrandawiad wedi dod i ben ac yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau ar adrodd. Mewn rhai achosion mae'r llys yn cyhoeddi 'cyfyngiadau ar adrodd' gan atal unrhyw beth rhag cael ei gyhoeddi a fyddai'n arwain at adnabod unigolion yn yr achos. Gallai hyn olygu na allwch ddweud mewn unrhyw ffordd pwy yw'r person a gyhuddir neu a gafwyd yn euog o drosedd.

Wi-Fi mewn adeiladau llys a thribiwnlys: Mae GovWifi am ddim ar gael i'r cyhoedd ym mhob adeilad llys a thribiwnlys.

Darlledu mewn llysoedd: Mae gan gyfryngau awdurdodedig ganiatâd i ffilmio sylwadau dedfrydu gan rai barnwyr yn Llys y Goron. Mae'n bosibl y byddan nhw'n dewis darlledu'r rhain yn eu bwletinau newyddion ar y teledu neu ar-lein neu eu cyhoeddi ar-lein. Dim ond barnwyr sy'n cael eu ffilmio, nid yw cyfranogwyr eraill, partïon i'r achos neu'r oriel gyhoeddus yn cael eu ffilmio ar hyn o bryd.

## Cael gwybodaeth am achosion llys a thribiwnlysoedd

Yn ogystal â gwylio gwrandawiadau, mae gennych hawl i dderbyn gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd os oeddech chi'n cymryd rhan yn y gwrandawiad neu beidio.

Mewn rhai amgylchiadau gallwch wneud cais am drawsgrifiad o wrandawiad llys neu dribiwnlys (neu rannau penodol o wrandawiad) os cafodd ei recordio. Gall y llys wrthod darparu rhan neu'r cyfan o drawsgrifiad (er enghraifft, os yw manylion y gwrandawiad yn gyfrinachol). Nid yw llysoedd ynadon yn recordio eu hachosion.

Efallai y bydd rhaid i chi dalu am recordiad llys, am nodiadau gwrandawiad neu am drawsgrifiad, gofynnwch i'r llys neu i'r tribiwnlys os yw'n rhad ac am ddim neu os bydd tâl.

Cyfyngiadau ar adrodd: Mae rhai gwrandawiadau llys neu dribiwnlys yn destun cyfyngiadau sy'n atal unrhyw un rhag adrodd ar achosion neu gyhoeddi gwybodaeth amdano. Os nad ydych yn siŵr a yw cyfyngiadau ar adrodd mewn grym yn achos gwrandawiad, dylech siarad â'r llys neu'r tribiwnlys yn uniongyrchol. Mae'n rhaid i chi gadw at y cyfyngiadau hyn ac ni ddylech gyhoeddi gwybodaeth gyfyngedig. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn ddirmyg llys a gallech gael dirwy neu ddedfryd o garchar.

Cais am wybodaeth am achosion: Os ydych chi eisiau gwybodaeth am wrandawiad gallwch gysylltu â'r llys neu â'r tribiwnlys perthnasol. Mae'n bosibl y bydd gennych hawl i'r wybodaeth, yn dibynnu ar reolau'r llys neu'r tribiwnlys. Yn achos gwybodaeth arall, a gwybodaeth am achosion troseddol a ddaeth i ben fwy na 6 mis yn ôl, mae'n rhaid i chi wneud cais i farnwr neu i ynad drwy'r llys neu'r tribiwnlys lleol ac esbonio'r rhesymau dros y cais.

Dirmyg llys: Mae 'Dirmyg llys' yn digwydd pan fo risg bod rhywun yn dylanwadu'n annheg ar achos llys. Mae'n bosibl y bydd yn atal rhywun rhag cael treial teg a gall effeithio ar ganlyniad treial. Mae'r cosbau am ddirmyg yn cynnwys dirwyon a charchar. Gall dirmyg llys gynnwys:

- anufuddhau neu anwybyddu gorchymyn llys
- tynnu lluniau neu weiddi allan yn y llys
- gwrthod ateb cwestiynau'r llys os cewch eich galw i fod yno fel tyst
- gwneud sylwadau cyhoeddus ar achos llys byw, er enghraifft ar gyfryngau cymdeithasol neu mewn erthyglau newyddion ar-lein

## Pwyntiau cyswllt a rhagor o wybodaeth

Mae'n bosibl dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar y gwefannau canlynol:

- Gwefan GLITEF (GOV.UK)
  https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service
- Gwefan y farnwriaeth
  https://www.judiciary.uk/
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
  https://www.cps.gov.uk/
- Yr Heddlu
  https://www.police.uk/
- Rheolau Trefniadaeth Troseddol
  https://www.gov.uk/guidance/rules-and-practice-directions-2020
- Rheolau Trefniadaeth Sifil
  https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules
- Rheolau Trefniadaeth Teulu
  https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/rules_pd_menu
- Chwilio am lys neu dribiwnlys
  https://www.gov.uk/chwilio-am-lys-neu-dribiwnlys
- Rheolau Trefniadaeth y Tribiwnlys (Uwch Dribiwnlys)
  https://www.legislation.gov.uk/ uksi/2008/2698/contents
- Archif dyfarniadau barnwrol
  https://www.judiciary.uk/judgments/
- Dod o hyd i gyfraith achos (national.archives.gov.uk)
  https://caselaw.nationalarchives.gov.uk
- Pwy yw pwy yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd
  https://www.gov.uk/government/collections/hmcts-whos-who-in-courts-and-tribunals
- Addasiadau rhesymol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd
  https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/equality-and-diversity.cy
- Mynd i'r llys fel dioddefwr neu dyst
  https://www.gov.uk/going-to-court-victim-witness
- Mynychu treial fel aelod rheithgor Jury service:
  How jury service works - GOV.UK (www.gov.uk)
- Canllaw GLITEF am y prosesau diogelwch
  https://www.gov.uk/entering-court-or-tribunal-building
- Dirmyg llys
  https://www.gov.uk/contempt-of-court
- Gwasanaeth Gov Wifi
  https://www.wifi.service.gov.uk/
- Gwneud cais am drawsgrifiad o wrandawiad llys neu dribiwnlys
  https://www.gov.uk/apply-transcript-court-tribunal-hearing
- Hanes y system gyfiawnder a strwythur llysoedd a thribiwnlysoedd
  https://www.judiciary.uk/about-the-judiciary/ our-justice-system/court-structure/
- Cymorth i bobl anabl
  https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/equality-and-diversity.cy

## NODIADAU

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

© Hawlfraint y Goron

Cynhyrchwyd Tachwedd 2023